

Cenn@d

CHWFROR 1 2023 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 101

Dyfodol cylchgronau Cristnogol Cymraeg?

Yn wyneb newidiadau yn y byd cyhoeddi a'r modd y mae grantiau'n cael eu rhannu, mae Aled Davies yn holi tybed beth yw dyfodol ein cylchgronau Cristnogol Cymraeg.

Yn ystod y dyddiau diwethaf fe wnaeth y Parch. Rhodri Glyn Thomas, Cyn-weinidog Treftadaeth yn y Cynulliad, ddatganiad yn rhybuddio bod angen diogelu'r cylchgronau Cymraeg sy'n bodoli eisoes, a bod angen dysgu gwersi o'r gorffennol mewn perthynas â dyfarnu grantiau. Mae hyn yn sgil penderfyniad y Cyngor Llyfrau i wahodd ceisiadau am swm o hyd at £30,000 er mwyn peilota dau gylchgrawn newydd sbon yn y Gymraeg, un ym maes chwaraeon a'r llall ym maes hanes.

Unwaith eto, daeth yn bryd i'r holl gylchgronau Cymraeg gyflwyno'u ceisiadau am nawdd, ac yn eu plith y mae *Cristion* a'r *Traethodydd*. Yn ei ddatganiad, meddai Rhodri, 'Mae'n rhaid bod yn ofalus iawn ynglŷn â sut mae hyn yn effeithio ar gyhoeddiadau eraill ac mae'n rhaid edrych ar y gyllideb gyfan. Dwi'n meddwl, y dyddiau yma pan mae arian yn brin, ei bod hi'n bwysig amddiffyn yr hyn sydd eisoes wedi derbyn cyllid a fyddwn i ddim yn hoffi gweld unrhyw gyhoeddiad arall yn dioddef yn sgil hyn.'

Mewn datganiad, dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor Llyfrau 'ei bod hi'n gystadleuaeth agored a bod cyfle i gwmnïau cylchgronau sy'n bodoli yn barod i ehangu eu darpariaeth'.



Mae hen hanes i newyddiaduraeth a chylchgronau crefyddol yng Nghymru, o ddyddiau cynnar *Seren Gomer* hyd at heddiw. Ond dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newidiadau mawr, gyda'r *Goleuad* a *Seren Cymru* yn uno ac yn mynd yn bapur digidol, ar lein, *Y Llan* yn dod i ben, a lleihad sylweddol yn nifer prynwyr a thanysgrifwyr y cylchgronau eraill sy'n weddill.

Pan gychwynnais ar fy ngwaith gyda'r Cyngor Ysgolion Sul yn 1989 roeddem yn dal i gyhoeddi'r cylchgrawn *Antur* i blant, ac mae atgofion melys iawn gennyf o gydweithio hapus gyda'r golygydd Gareth Maelor, a chyfarfodydd golygyddol difyr yn y cartref ym Montnewydd. Ond yn fuan iawn dyfarnwyd bod y gwerthiant o 2,300 copi bob mis yn annigonol i gyfiawnhau grant, a daeth y cylchgrawn i ben. Erbyn hyn, mae'n debyg y byddai gwerthiant o'r fath yn cael ei ystyried yn llwyddiant ysgubol.

Dros yr un cyfnod gwelwyd cylchrediad *Cristion*, sy'n cael ei gefnogi gan chwe enwad gwahanol, yn lleihau o dros 3,000 copi y rhifyn i oddeutu'r 1,000 erbyn hyn. Dau gylchgrawn o naws grefyddol sy'n derbyn grant gan y Cyngor Llyfrau yw *Cristion* a'r *Traethodydd*. Bu'n rhaid iddynt hwythau gystadlu am yr arian grant a cheisio cyfiawnhau rheswm dros barhad. Yn naturiol, holl bwrpas rhoi grant yw gwella ansawdd a chynyddu cylchrediad, er mwyn dangos gwerth am arian. Dyma alwad felly ar i ninnau fel darllenwyr *Cenn@d* i wneud popeth o fewn ein gallu, nid yn unig i danysgrifio a darllen, ond hefyd i annog eraill i brynu a darllen a hyrwyddo'r cylchgronau hyn.

Gwledd o ddarpariaeth

Ar hyn o bryd cyhoeddir *Cenn@d* yn wythnosol, a hynny yn rhad ac am ddim ar y we. Mae hynny trwy garedigrwydd y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr, sy'n ariannu'r cynllun, a thrwy gydweithrediad yr Annibynwyr, sy'n rhannu tair tudalen â ni. Braf oedd cael dathlu ein 100fed rhifyn yn ystod yr wythnos diwethaf. Yn yr un modd, cyhoeddir *Y Tyst* gan yr Annibynwyr yn wythnosol fel papur mewn print, gyda chopïau'n cael eu rhoi ar y we ymhen amser. Mae'r *Gwyllyddydd* yn gylchgrawn a gyhoeddir gan yr Eglwys Fethodistaidd



bob deufis, ac mae hwnnw eto ar gael am ddim i bwy bynnag sydd am ei dderbyn.

Ers 1984 mae *Cristion* wedi cael ei gyhoeddi fel cylchgrawn rhyng-enwadol, ac erbyn hyn yn gyhoeddiad lliw llawn sy'n cynnwys erthyglau difyr i bob oed, dan olygyddiaeth Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys. I'r sawl sy'n chwilio am rywbeth mwy ysgolheigaidd, cyhoeddir *Y Traethodydd* yn chwarterol o dan olygyddiaeth D. Denis Morgan. Cyhoeddir *Gair y Dydd* fel adnodd chwarterol sy'n cynnig myfyrdod dyddiol, ac ychwanegwch at hyn gylchgrawn deufisol *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, deunydd digidol Cristnogaeth21, a sawl papur eglwys leol sy'n cael ei rannu ar y we, ac fe sylweddolwn fod yna ddigon o ddeunydd difyr a chyfoes ar gael yn y Gymraeg.

Newyddion cyflym

Erbyn hyn daeth rhannu newyddion yn gymaint haws drwy'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. Yn aml, cawn ofalaethau ac eglwysi'n cyhoeddi pytau o newyddion gyda thoreth o luniau; mae nifer o erthyglau swmpus hefyd yn cael eu rhannu, gan annog darllenwyr i ymateb â'u sylwadau. Mae hyn yn chwyldroadol o ran enbyn a chreu diddordeb, gan roi cyfle i ymateb yn syth bin, yn wahanol i lythyr yn ymddangos wythnosau ar ôl i'r erthygl ymddangos mewn papur newydd. Ceir nifer o dudalennau pwrpasol ar Facebook er mwyn rhannu gwybodaeth a lluniau, e.e. tudalen Y Capel, lle ceir deialog yn gyson iawn am ddyfodol addoldai ar hyd a lled Cymru. Yn yr un modd mae llawer o fudiadau'n cyhoeddi eu newyddion ar y cyfrwng, gan ei wneud yn haws i eraill ei rannu ar ei ffrwd eu hunain. Mae'n debyg y bydd llwyddiant cylchgronau yn y dyfodol yn ddiabynnol ar eu gallu i gyfuno cyfrwng print a digidol – model hybrid y clywsom gymaint o drafod amdano dros y blynyddoedd diwethaf.

Ond, fel gyda phob dim, mae angen darllenwyr, ac i sicrhau parhad mae angen prynwyr. Os yw'r niferoedd yn dal i leihau, mae 'na beryg i ni golli rhai o'r cyhoeddiadau pwysig hyn. Gobeithiwn am ddyfodol llewyrchus i *Cristion* a'r *Traethodydd*, ond mae hynny yn ein dwylo ni. Bydd yn rhaid cyflwyno cais am grant, a chystadlu â gweisg a darparwyr eraill, a hynny hefyd mewn byd digidol ac ar lein. Mae angen cynyddu nifer y tanysgrifwyr a chyflwyno'r cylchgronau hyn i farchnad newydd. Dwi'n meddwl mai'r ymadrodd Saesneg 'Use it or lose it' sy'n crynhoi'r sefyllfa orau! Tybed be fedrwn ni ei wneud i gefnogi'r cyhoeddiadau Cristnogol hyn?

Tystiolaeth yr Eglwys
yn yr Eisteddfodau a'r Sioe
Tudalen 3

O'r galon
Tudalen 5

Nadolig a Dechrau'r Flwyddyn
yng Nghylch Carn Ingli
Tudalen 7

Biliau ynni o fis Ebrill ymlaen


Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid annomestig – gan gynnwys **addoldai – gyda'u biliau ynni** ar gyfer Ebrill 2023–Mawrth 2024. Gellir gweld y cyhoeddiad yma: <https://www.gov.uk/guidance/energy-bills-discount-scheme> (Saesneg yn unig).

I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid – a hynny yn awtomatig trwy eu biliau ynni – fe drefnir gostyngiad yn y pris fesul uned a godir. Dangosir manylion y gostyngiad trwy'r ddolen uchod, ac fe ddylai cyflenwyr ynni yrru cadarnhad i bob cwsmer cyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae yna rai amodau o ran y math o gytundeb sydd gan y cwsmer â'r cyflenwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu y bydd cost ynni fesul uned yn codi o Ebrill 2023 o'i gymharu â'r taliadau presennol, ond bydd yn dal yn llai na phris y farchnad.

Bydd nifer fach o addoldai yn gymwys hefyd ar gyfer gostyngiad ychwanegol trwy gynllun ETTI (Energy and Trade Intensive Industries), os ydynt yn safle neu'n adeilad hanesyddol neu'n atyniad i ymwelwyr; neu'n cynnal llyfrgell, archifdy neu amgueddfa. Bydd angen gwneud cais am y cymorth ychwanegol hwn, ac nid yw'r dull ymgeisio wedi ei gyhoeddi eto.

Yn anffodus, nid oes gan Cytûn yr adnoddau i gynghori addoldai unigol ar eu sefyllfa – dylid cysylltu â'r cyflenwr ynni – ond rydym yn falch fod yr achos a roesom gerbron Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda chymorth gwybodaeth gan nifer o eglwysi lleol, wedi dwyn rhywfaint o ffrwyth.

Trwy law Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru



Ymunwch â Gweddi dros Ysgolion wrth i ni ddod at ein gilydd o bob rhan o Gymru i weddio dros ein hysgolion lleol nos Fercher, 8 Chwefror, am 7pm. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o bythefnos Caru ein Hysgolion, a gellir dod o hyd i adnoddau yma: <https://www.prayforschools.org/loveourschools/>.

Gwledigaeth Gweddi dros Ysgolion yw ysgogi Cristnogion i gefnogi cymunedau eu hysgolion trwy weddi. Ledled y Deyrna Unedig, mae grwpiau o rieni, athrawon neu weithwyr ysgolion yn cyfarfod yn rheolaidd i weddio dros eu hysgolion lleol.

Dewch â ffrind gyda chi am 45 munud ysbrydoledig i weddio gyda'ch gilydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Andy Hughes: wales@prayforschools.org

Cydymdeimlo

Trist gennym yw nodi colli tri o weinidogion o'n plith.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu'r Parch. Sadrach Owen Hughes a fu farw ganol mis Ionawr yn 93 oed. Cynhaliwyd oedfa angladdol breifat yn Amlogfa Bae Colwyn. Cofiwn am ei briod, Eirlys, a'i blant, Mair, Rhian a Gwyn, ynghyd â'u teuluoedd.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch. Wynn Vittle, Caerfyrddin. Bu'n weithgar fel gweinidog ymhlith y Bedyddwyr am flynyddoedd lawer a bydd llawer yn cofio amdano fel Ysgrifennydd Cyffredinol Cymorth Cristnogol am ymron i 18 mlynedd o 1972 ymlaen. Rydym yn cofio'n annwyl amdano a'i aml gymwynasau, ac yn cydymdeimlo'n fawr ag Arwel, Meinir a'r teulu i gyd.

Gyda thristwch hefyd y clywsom am farwolaeth y Parch. Ddr Goronwy Prys Owen a fu'n gweinidogaethu yn Llidiardau, ger y Bala, ym Mangor ac yn Nhrefor, yng Nghaerfyrddin a Llanrwst, cyn ymddeol i'r Bala. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant ag Eirlys, ei weddw, a'i blant, Siôn Illtud a Rhiell, a'u teuluoedd.

Gobeithiwn gynnwys ysgrifau coffa iddynt yn fuan.



Gofal ein Gwinllan

Cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i laith, Diwylliant a Hanes Cymru

04 Chwefror 2023 - 10.00-11.30 am
Paned a chlonc 11.30-12.00 pm
Siaradwyr Gwadd:

Ieuan Glan Geirionydd	A. J. Johnes ac 'Achosion Ymneilltuaeth'
Parch Ddr Siôn Aled Owen	Yr Athro R. Gwynedd Parry

Cliciwch ar y ddolen i gofrestru: <https://bit.ly/3itXzbt>

ASIBODIA PADARN SAINT ST PADARN'S INSTITUTE

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022–2023

Mae Rhaglen Cymanfaoedd Canu Cydenwadol 2022–23 nawr ar gael!

Gellir eu harchebu drwy ffonio Helen Gibbon, Ysgrifennydd y Pwyllgor Mawl Cydenwadol: 01267 290518

Tystiolaeth yr Eglwysi yn yr Eisteddfodau a'r Sioe

Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin, 29 Mai–3 Mehefin 2023: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul



Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a'r Cyngor Ysgolion Sul am 7.00y.h. nos Lun, 6 Mawrth, yng Nghapel Providence, Llangadog, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri eleni.

Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 29 Mai a 3 Mehefin ar gyrion tref Llanymddyfri, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol. Fe wahoddir eglwysi ac ysgolion Sul lleol yn Sir Gaerfyrddin i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â help i ddarparu paned.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Byddai'n dda medru cynnwys cynifer o arddangosfeydd o waith ysgolion Sul lleol â phosib o fewn y stondin. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn yn Llangadog.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies
Swyddog Digwyddiadau
Cenedlaethol Cytûn*

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Boduan, ger Pwllheli, 5–12 Awst 2023: Pabell yr Eglwysi

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru am 7.00y.h. nos Fawrth, 7 Mawrth, yn festri capel Penlan yng nghanol tref Pwllheli, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ym Moduan, rhwng Pwllheli a Nefyn, a hynny rhwng 5 a 12 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned helaeth yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe wahoddir cynrychiolwyr o eglwysi o fewn y sir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn ym Mhwllheli. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies
Swyddog Digwyddiadau
Cenedlaethol Cytûn*

Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, 24–27 Gorffennaf 2023: Pabell yr Eglwysi



Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru am 1 o'r gloch bawn Llyn, 6 Mawrth 2023, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y Sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin.

Cynhelir y Sioe yn ôl yr arfer yn Llanellwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 24 a 27 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe wahoddir cynrychiolwyr o'r sir a phawb sydd â diddordeb mewn tystiolaeth amaethyddol fel caplaniaid i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell.

Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda.

Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn yn Llanellwedd. Darperir te a choffi – dewch â'ch cinio gyda chi a chawn drafod dros amser cinio dydd Llyn.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies
Swyddog Digwyddiadau
Cenedlaethol Cytûn*

Taro'r Post

Annwyl Olygyddion,

A gaf fi'ch llongyfarch ar rifyn neilltuol ddiddorol o *Cenn@d*, def rhifyn 98, 11 Ionawr 2023? Roedd ei gynnwys yn wirioneddol afaelgar, ac yn dwyn yn ôl i mi atgofion cyfoethog, hen a newydd. Roedd ymdriniaeth y Parchg Trystan Owain Hughes (yntau'n gyn-fyfyriwr i mi) ag eciwmeniaeth yn y Gymru gyfoes yn hynod dreiddgar, a bydd ei erthygl yn sylfaen trafodaeth yng nghyfarfod nesaf yr Eglwys Ynghyd yma yn Llanbedr.

Ac yna, a minnau wedi cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru yn yr oedfa goffa i'r Pab Bened XVI yng Nghadeirlan Gatholig Caerdydd yr wythnos diwethaf, roedd cael darllen crynhoad disglair y Parchg Glyn Tudwal Jones o'i gyfraniad diwinyddol yn amheuthun. Mae cyfrol Bened, *Jesus of Nazareth*, sy'n goleuo'r meddwl yn ogystal â chynhesu'r galon, ar y ddesg o fy mlaen, felly diolch, Glyn, am ddwyn sylw mor bwrpasol at ei waith.

Tristwch oedd darllen am farw'r cyfaill, y Parchg Rhys ab Ogwen Jones, un arall o'm cyn-fyfyrwyr ym Mangor (a chyfoeswr yno â Trystan Hughes), ond diolch i'r Parchg John Owen am deyrnged ddiffuant a dwys. A chan daro cyweirnod mwy llon, gwyth oedd darllen am fwrllwm Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr, gweld y lluniau o'r plant ac yn serennu yn eu canol Janet Evans, eu harweinydd diwyd ac egniol. A chefais y budd arferol o ddarllen cyfraniad gan dri chyfaill arall, sef y Parchg Denzil John, Meirion Morris a Watcyn James.

Gwn yn iawn pa mor ddiddiolch y gall golygu cylchgrawn fod, felly derbynwch y gair byr hwn o werthfawrogiad. A diolch yn neilltuol am dynnu sylw at rifyn cyfredol *Y Traethodydd*. Bydd y sawl a wrandawodd ar y Dr Rowan Williams yn traethu ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron ym mis Awst, ar y posibilrwydd o greu barddoniaeth mewn hinsawdd seciwlar yn falch o'r cyfle i ddarllen yn hamddeneol sylwadau a fydd yn arhosol eu gwerth. A chofiwch, ddarllenwyr *Cenn@d*, fod croeso i bob un ohonoch danysgrifio i'r chwaer hynaf, sef *Y Traethodydd*.

Yn gywir iawn

D. Densil Morgan
Llanbedr Pont Steffan

Taro'r Post

Yn ystod trafodaeth gyda'r Parchedig Ddr Alun M. Thomas am y catecism Cristnogol buom yn trafod *Y Rhodd Mam, Yr Hyfforddwr* a'r 'arholiad sirol', a'u cyfraniad i ni wrth inni dyfu i fyny.

Yn bersonol, mi roedd yna werth cymdeithasol, crefyddol ac ariannol iddyn nhw. Mi roedd sefyll yr arholiad sirol yng Nghapel y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, yn dod â chyfoeth ariannol yn ei sgil – arian gan deulu, gan y capel, gan y Dosbarth a chan yr Henaduriaeth. Yn fwy na hynny, os oedd y cyfarfod gwobrwyo (Henaduriaeth) yn bell, byddwn yn cael diwrnod o'r ysgol. Felly, mi roedd Llwyngwrl yn siwtio'n iawn; Carreg Ddu, Blaenau Ffestiniog: dim ond hanner diwrnod – siomedig.

Mae yna fedal acw – un aur, 22 carat, sef medal Edward Griffith, 'y wobwr 1af dan 25ain Arholiad sirol Gor[llewin] Meirionnydd 1918'. Ar yr ochr arall mae enw fy modryb: 'Laura Richards ysgol (Sul) Llanbedr'.



Maeth

Croeso i'r gymuned amaethyddol

Thema: "Gobaith mewn Dyddiau o Newid"

Siaradwr: Wyn Evans, "Y Gair Byw"
Sy'n gweinigogaethu i ffermwyr yn Ne Cymru

Cinio am 1
Cyfarfod am 2

11 Chwefror 2023
Bryn-y-groes, Bala

Y siaradwr yn ein hencil i'r gymuned amaethyddol eleni fydd Wyn Evans, sy'n ymweld â ffermydd yn ne Cymru yn bennaf er mwyn estyn allan gyda'r Efengyl ac i weddio gyda phobl.

Mae'r digwyddiad hwn wedi cael ei gynnal yn flynyddol ers rhyw bum mlynedd. Y bwriad yw cynnig cymdeithas a chefnogaeth i'r rhai sydd â chysylltiad â'r byd amaethyddol – maes sydd dan dipyn o bwysau y dyddiau hyn. Dyma gyfle i ddot at ein gilydd l fwynhau cymdeithas, rhannu beichiau, dod i adnabod amaethwyr eraill mewn cyd-destun Cristnogol a chefnogol. Croeso mawr i unrhyw un ymuno.

Bydd cinio [rhad ac am ddim] am 1 o'r gloch ac yna'r cyfarfod yn dilyn am 2 o'r gloch. Rhif ffôn cyswllt Bryn-y-groes yw 01678 520752. Byddai'n hyfryd cael eich cwmni. (Byddai'n gymorth o ran arlwygo pe baech yn rhoi gwybod os ydych yn bwriadu dod.)

Mi roedd Laura Richards (1899–1965) yn un o wyth o blant ac wedi ei magu yn Nyffryn Ardudwy ac yna yn y Crossing, Llanbedr, ac aeth i Ysgol Ramadeg y Bermo. Roedd hyn yn dipyn o aberth i'r rhieni tlawd, ond oherwydd ei bod yn alluog ac yn gloff o'i genedigaeth, mi roedd Nain yn awyddus iddi gael pob cyfle. Aeth i'r Coleg Normal ac wedyn yn athrawes drwyddedig i Garno, yna Birmingham, Llan Ffestiniog, Corris a Phenrhyndeudraeth. Bu'n athrawes ysgol Sul ac yn flaenores, yn gwasanaethu ei chapel a'r gymdeithas lle bynnag yr oedd.

Tybed pwy oedd yr "Edward Griffith" oedd mor hael, yn cyflwyno'r fedal bob blwyddyn? Gwyn ei fydd. Gwir angen Laura ar y pryd oedd arian i fynd i'r coleg, ond mae'n amlwg ei bod wedi trysori'r fedal, ac iddi ei chadw ar hyd ei hoes.

Oes gwerth i'r gweithgareddau ymylol yn ein capeli? Amhrisiadwy.

Nia Williams
Ynys Môn



O'r galon



Hoffem groesau cyfrannwr cyson newydd i *Cenn@d*, sef Hywel Rhys Edwards, Parc, y Bala. Edrychwn ymlaen at ddarllen ei gyfraniadau deufisol i'r dyfodol.

'Gobaith a oeder a wanha y galon: ond pren y bywyd yw deisyfiad, pan ddêl i ben.' (Diarhebion 13:12; BWM)

Sut mae eich calon y dyddie hyn?

Sawl tro y clywsoch y cyngor i ddilyn eich calon er mwyn gallu byw bywyd yn ei gyflawnder? Ond y gwirionedd i'r rhan fwyaf ohonom yw fod y galon a'i gobeithion mor aml yn medru ein harwain ar gyfeiliorn ac i lefydd go dywyll.

Drwy gydol fy ngweinidogaeth rwyf wedi sylwi fod clafychu'r galon gan siom tu cefn i gymaint o'r loes a'r ymgodymu yn ein cymdeithas. Mae'n gyflwr dichellgar a slei, nad yw am i ni ei adnabod â delio ag ef.

Cymerwch y nifer o deuluoedd sy'n cael eu chwalu ganddo. Yn aml, yr hyn sy'n arwain at 'chwarae oddi cartref' yw fod yr hyn y gobeithiwyd amdano wedi syrthio'n brin o'r gobaith tywydd tegaidd o fyw'n hapus am byth. Dywed y galon bryd hynny, 'Paid edrych ar y siom fel problem; na, cyfiawnhad ydi o i ti ganfod dy hapusrwydd yn rhywle arall.'



Llun gan Jeremy Yap ar Unsplash

Meddyliwch am blentyn yn dychmygu ei fywyd ar ôl tyfu i fyny. Nid breuddwydio y mae am fywyd tu ôl i gyfrifiadur, neu o lafur caled, i dalu'r biliau er mwyn cael mynd i'r gwaith. Mor aml mae ein profiad yn syrthio ymhell o'r hyn y gobeithiwyd amdano.

Tybed pa obeithion oedd gennych ym more oes, neu wrth adael cartref, neu briodi, sy'n edrych yn wahanol iawn heddiw?

Os nad ydym yn cydnabod ein siom, mae'n gallu magu gwreiddiau o chwerwder neu ryw hunandosturi dinistriol. Fe all beri na fedrwn fentro gobeithio eto, fel bo ffydd yn nychu o'n mewn. Dywed ein calon wrthym nad yw gobeithio'n ddiogel. Pan fo ffydd yn ceisio codi ei phen, mae'r siom yn boddi ei llais, a tybed ai dyma pam mae cariad cynifer yn oeri?

Efallai mai'r cam cyntaf ac anoddaf yw cydnabod ein siom, er mor boenus yw.

Nid pregethu ydyf yn erbyn bod yn obeithiol; na, fel arall. Ystyriwch ail ran yr adnod: 'pren y bywyd yw deisyfiad, pan ddêl i ben'. Rydym wedi ein creu i obeithio, ac mae gobaith a gyflawnir yn debyg i fwyta ffrwyth pren y bywyd.

Beth sydd ei angen felly yw bod â'n llygaid yn agored i wahaniaethu rhwng pren gwybodaeth da neu ddrwg, a'r pren bywiol a blannodd Duw ar ein cyfer yn yr ardd. Do, fe gafodd Adda ac Efa eu bwrw allan o Eden rhag iddynt fwyta o'r goeden honno a byw am byth. Ond cawn sawl cyfeiriad yn y Beibl fod addewid ffrwyth y goeden honno'n perthyn i deulu ffydd, gan gyrraedd ei chyflawniad yn y ddinas dragwyddol, y Jerwsalem newydd (Datguddiad 22:1-2).

Sut mae meddyginiaethu'r galon friwedig, ddrylliedig gan siom? A oes balm yn Gilead?

Mae llawer y gellid ei ddweud ond fe fydd raid i mi eich siomi, wir ddrwg gen i, a cheisio chwilio am atebion y tro nesaf. Ond, yn y cyfamser, myfyriwch ar un o'r adnodau rwy'n siŵr y bu i chi ei dysgu'n blentyn: 'Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.' (1 Corinthiaid 13:13; BWM)



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU



Cwrs Hyfforddiant i Flaenoriaid ar gyfer Gweinyddu'r Sacramentau

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) yn annog blaenoriaid i ystyried hyfforddi ar gyfer gweinyddu'r Sacramentau. Golyga hyn y gallwch weinyddu'r Cymun yn eich eglwys eich hun, neu eglwys arall sydd efallai heb weinidog. Gallwch hefyd weinyddu'r Cymun i rai sy'n gaeth yn eu cartrefi, neu i unigolion mewn cartref preswyl neu ysbty.

Efallai eich bod eisoes yn cynorthwyo'r eglwys yn lleol drwy arwain addoliad a chymryd ambell wasanaeth. Os felly, byddai medru cynnig oedfa Gymun yn ffordd arall i chi wasanaethu'r gynulleidfa.

Mae'r cwrs yn cynnwys 6-8 sesiwn, gan gyfarfod unwaith bob pythefnos. Cynigir y cwrs hwn ar y we trwy Zoom ar hyn o bryd. Bydd peth gwaith ysgrifenedig i'w wneud, megis paratoi gwasanaeth ar gyfer achlysur penodol, a bydd y gwaith gennych wedyn i'w ddefnyddio yn eich eglwys.

Rhaid i flaenor gael ei chymeradwyo/ gymeradwyo gan ei Henaduriaeth fel person sy'n derbyn cefnogaeth yr Henaduriaeth i weinyddu'r Cymun. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd angen i'r blaenor gael ei gomisiynu /chomisiynu gan yr Henaduriaeth i weinyddu Sacramentau'r Cymun a'r Bedydd.

Mae croeso, wrth gwrs, i aelodau nad ydynt yn flaenoriaid i fynychu'r cwrs o ran diddordeb.

Cynigir y cwrs yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan y Parchedig Ddr Andras Iago.

Cysylltwch â'r Cydlynnydd Hyfforddiant trwy e-bost am fwy o wybodaeth ac i gofrestru cyn gynted â phosibl ar gyfer y cwrs. Bydd y cwrs nesaf yn cychwyn ddechrau Chwefror. Bydd dyddiadau ac amseroedd y cwrs yn cael eu trafod a'u trefnu rhwng y myfyrwyr a'r tiwtor.

Rhys Bebb Jones
Cydlynnydd Hyfforddiant EBC
rhys.jones@ebcpcw.cymru

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

16 Cyfiawnder ffydd

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 9)

Darllen: Genesis 15:1-6

Un o nodweddion pobl Dduw yn y Beibl yw'r modd y maent yn symud o fuddugoliaeth a gwrhydri ffydd i lefydd o amheuan a chwestiynu. Mae'n debyg mai'r enghraifft orau o hyn yw Elias yn dilyn buddugoliaeth mynydd Carmel. Yn 1 Brenhinoedd 18, mae Elias yn herio'r brenin anghyfiawn, Ahab, ac yn casglu ynghyd holl broffwydi Baal. Yno mae Elias yn gosod yr her: 'Pa hyd yr ydych yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr ARGLWYDD sydd Dduw, dilynwch ef; ac os Baal, dilynwch hwnnw. ... Yna galwch chwi ar eich duw chwi, a galwaf finnau ar yr ARGLWYDD, a'r duw a etyb drwy dân fydd Dduw' (18:21, 24). Yn dilyn ateb clir yr Arglwydd, fe gawn y bobl yn cyffesu, 'Yr ARGLWYDD sydd Dduw! Yr ARGLWYDD sydd Dduw!' (18:39) Wedi gweld y fuddugoliaeth oruwchnaturiol hon, mae'n chwistig fod pennod 19 yn agor ag Elias yn dianc mewn ofn rhag Ahab a'i wraig, ac yn ei gael ei hun mewn lle o anobaith llwyr, hyd yn oed yn dymuno marw! 'Dyma ddigon bellach, O ARGLWYDD; cymer f'enioes, oherwydd nid wyf fi ddim gwell na'm hynafiaid.' (19:4)

Gallwn ddarllen sut mae Duw yn gofalu am angen Elias yn y bennod ac yn diolch am y trugaredd a brofodd, ac felly hefyd yn Genesis 15. Mae Abraham yntau newydd brofi buddugoliaeth ryfeddol, ac wedi amlygu gwrhydri anghyffredin wrth fynd allan i gyfarfod â'r brenhinoedd hyn gyda 318 o filwyr yn unig! Ond, erbyn dechrau pennod 15, fe'i cawn yn westiynu ffyddlondeb a daioni Duw, a'i eirwiredd yn ei addewid iddo: 'O Arglwydd DDUW, beth a roddi i mi, oherwydd rwy'n para'n ddi-blant, ac etifedd fy nhŷ yw Eleasar o Ddamascus?' (Genesis 15:2) Ond, fel yn hanes Elias, cawn yr Arglwydd yn trin ei blentyn yn drugarog, yn ei atgoffa o'r addewid, ac yn rhoi arwydd iddo o ffyddlondeb cyfamod y nef ar ddiwedd y bennod. Mwy am hynny'r tro nesaf ...

Heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar le'r bennod hon yng nghanol ein deall fel pobl Dduw o'r modd y mae Duw yn dod i berthynas â ni, ac y down ninnau i berthynas â Duw. Yr adnod allweddol yw 15:6, 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo.' Mae'r adnod yn cael ei dyfynnu droeon gan Paul (Rhufeiniaid 4:3,9,22; Galatiaid 3:6) a gan Iago (2:23), ac mae'r gwirionedd fod cyfiawnhad drwy ffydd yn unig yn ganolog i holl stori'r Beibl, fel mae'r awdur at yr Hebreaid yn nodi yn Hebreaid 10:38-12:2. (Cofiwch, mae yna rai sy'n honni mai creadigaeth Paul yw hyn, a hynny ar waethaf y ffaith fod yr awdur at yr Hebreaid yn mynnu bod y gwirionedd yn perthyn i'r cyfnod cyn y dilyw, i gyfnod y patriarchiaid ac i hanes pobl Dduw drwy gyfnod y brenhinoedd a thu hwnt.)

Yn yr adnodau hyn, fe welwn mai ffydd oedd hanfod cyfiawnder Abraham, hynny yw, credu yn Nuw oedd yn peri bod Duw yn ei gyhoeddi'n gyfiawn o'i flaen. Ac er mwyn pwysleisio nad yw perthynas â Duw yn deillio o'n ffyddlondeb neu ein gweithredoedd ni, a phwysleisio nad ufuddhau i gyfraith Duw yw sail ein perthynas, mae'r adnod yn Genesis yn dangos hyn ym mywyd un anwadal – un ffyddlon ac anffyddlon. Dyma hefyd bwyslais Paul yn Rhufeiniaid 4, dadl sy'n dod i'w phenllanw yng nghyhoeddiad rhyfeddol Rhufeiniaid 5:1,2: 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo. Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw.'

Yn hanes Abraham, ac yn benodol yn yr hanes hwn, fe gawn Dduw, yng nghanol amheuan Abraham, yn cadarnhau ei addewid iddo. Mae'r ffordd y gwneir hyn yn adnodau 1-6 yn haeddu sylw gan ei bod yn amlygu'r gwirionedd bendigedig fod y Duw a wnaeth bopeth yn fwy nag abl i gadw ei air. Sylwch sut y mae Duw yn gwahodd

Abraham i '[e]drych tua'r nefoedd, a rhifa'r sêr os gelli'. Does dim gair yn dod o gyfeiriad Abraham, ond yn y distawrwydd mae awdur Genesis yn nodi, yn y fan honno, ei fod wedi credu Duw, a bod Duw wedi priodoli neu gyfrif cyfiawnder iddo ar sail ei ffydd. Fel y nodais, ffydd Abraham! Rydym yn gwybod na fyddai unrhyw werth inni sôn am ei weithredoedd, gan y bydd angen inni esbonio Genesis 16 maes o law. Ond, mi fyddwn, os Duw a'i myn, yn cael mynd at benodau eraill hefyd, penodau fel Genesis 22. Mae gwaith ffydd yn bwysig anghyffredin, fel y gwelir yn Iago 2, ond nid gwaith neu ufudd-dod i 'weithredoedd y Gyfraith' sy'n dod â ni i berthynas fywiol a sicr â Duw. O'n rhan ein hunain, medrwn ddweud gyda'r Ysgrythur, 'Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?' Ond medrwn ateb hefyd: 'Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd!' (Rhufeiniaid 7:23-4)

Mae yna ymadrodd Lladin enwog sy'n cyfleu'r paradocs hwn, ymadrodd o eiddo Martin Luther, yr un a ddefnyddiodd Duw yng nghychwyniad y Diwygiad Protestannaidd a'r un ddaeth yn Gristion wrth ddarlithio ar y Rhufeiniaid. Yn ôl Luther, y gwir am ein cyflwr ni yw '*simul iustus et peccator*', sef, yn gyfiawn ac yn bechadur ar yr un pryd. Felly Abraham, felly ninnau hefyd!

1. Sut mae Duw wedi delio â chyfnodau o lawenydd a chyfnodau o dristwch yn eich bywydau chi?
2. I ba raddau y byddwch yn cael eich cynnal gan y gwirionedd fod perthynas â Duw ac Iesu yn dod drwy waith a rhodd Duw o ffydd yn hytrach na thrwy eich gwaith chi?
3. 'Mae'r Cristion yn cael ei galonogi a'i synnu gan y paradocs rhyfeddol sydd yn yr Efengyl', ac mae Abraham yn enghraifft o'r paradocs hwn. I ba raddau rydych yn cydymdeimlo â hyn, ac i ba raddau mae hyn yn eich perswadio i fynd at Iesu o'r newydd?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 5 Chwefror, am 7.30yh

Mae 4 Chwefror wedi cael ei ddyodi'n Ddiwrnod Canser y Byd. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r clefyd hwn a chawn glywed stori'r gantores 'gospel' Nia Price.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 5 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans yn cyflwyno'r rhaglen olaf mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Cymdeithas yw'r thema heddiw

Sul, 5 Chwefror, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Lona Roberts, Caerdydd

Nadolig a Dechrau'r Flwyddyn yng Nghylch Carn Inglï

Oedfa Nadolig y plant a'r ieuencid

Gyda'r plant a'r ieuencid wedi cyflwyno'u hoedfaon Nadolig o adref, drwy gyfrwng y we, am y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd cryn gyffro ynghylch cyflwyno drama'r Nadolig wyneb yn wyneb eleni! Braff iawn felly oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd i Gaersalem bnawn Sul, 18 Rhagfyr, ar gyfer Oedfa Nadolig Plant ac Ieuencid Cylch Carn Inglï.

Llywiwyd yr oedfa gan y Parchg Alwyn Daniels a braf oedd clywed pedwar o fechgyn ifainc yn rhoi pawb yn y cywair priodol wrth gyflwyno'r gerdd 'Dim Ond Un' gan y prifardd Mererid Hopwood. Yna, cyflwynodd wyth o ferched ifainc ddarllenid byr o Eiseia ac offrymu gweddi ar gyfer y Nadolig.

Fel y gŵyr pawb, mae stori geni'r Iesu'n llawn o gymeriadau diddorol ac roeddent i gyd wedi dod i Gaersalem y diwrnod hwnnw. Y broblem oedd bod pob un ohonynt yn meddwl mai hi neu fe oedd y cymeriad mwyaf pwysig yn yr hanes. Rhoddodd yr angylion, y bugeiliaid, y tri gŵr doeth, gŵr y llety, Herod Frenin, Joseff, Mair, a hyd yn oed yr anifeiliaid i gyd, yn eu tro, resymau dilys pam mai nhw oedd y mwyaf pwysig. Ond cafwyd ymweliad annisgwyl cyn diwedd y cynhyrchiad pan ymddangosodd Iesu ei hun – wedi tyfu i fyny – i ddweud cymaint yr oedd wedi mwynhau cyfarfod â'r holl gymeriadau, er mai dim ond baban ydoedd ar y pryd, ac i atgoffa'r plant a'r gynulleidfa fod pawb yr un mor bwysig â'i gilydd yng ngolwg Duw.

Yn dilyn ymweliad gan Siôn Corn, rhoddwyd trefn ar y byrddau a chafodd pawb gyfranogi o'r danteithion amrywiol a baratowyd gan chwirydd bob un o eglwysi'r cylch.



Oedfa Nadolig Plant ac Ieuencid Cylch Carn Inglï

Carolau yng ngolau'r gannwyll

Bu cryn edrych ymlaen at yr oedfa hon eleni gan mai yn 2019 y cynhaliwyd yr achlysur hwn ddiwethaf, oherwydd y pandemig. Yn Jabes y cynhaliwyd hi eleni, a hynny nos Sul, 18 Rhagfyr. Crëwyd naws Nadoligaidd hyfryd gan yr addurniadau a'r canhwyllau a osodwyd o gwmpas y capel.

Croesawyd pawb i'r oedfa gan Marian Phillips, ysgrifenyddes Jabes, a chanwyd nifer o garolau gan y gynulleidfa i gyfeiliant Gwenno Eynon ar yr organ, am yn ail â darlleniadau ac eitemau a gyflwynwyd gan aelodau Jabes, Caersalem ac Eglwys Pontfaen.

Yna, daeth Wynn Davies ymlaen i sôn am brofiad ei wraig, Rhian, ac yntau'n cynnig cartref i ddau o Wcráin. Pan dorodd rhyfel allan yn Wcráin ym mis Chwefror 2020 fe gyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig eu bod yn cynnig lloches i ffoaduriaid. Manteisiodd y ddau ar y cyfle oherwydd bod

ganddynt ystafell wely sbâr. Trwy gymorth ffrind daethant o hyd i wŷr a gwraig, Maxim ac Olena. Ar ôl tipyn o gyfathrebu, teithiwyd i Abertawe ym mis Ebrill i'w casglu o'r orsaf. Meddai Wynn, 'Yr oedd yn drist iawn eu gweld yn gadael eu cartref a dim ond dau fag yn eu meddiant.'



Maxim a Polina o Wcráin, ynghyd â Matthew, eu ffrind, yn cyflwyno eitemau cerddorol yn oedfa garolau Jabes, Cwm Gwaun

Roedd y ddau wedi setlo i lawr yn dda ar yr aelwyd ac wedi dod i gysylltiad ag eraill o Wcráin oedd yn aros yn yr ardal. Ymunodd Maxim â thîm pêl-droed Johnston, ac efallai i rai weld ei hanes mewn erthygl yn y *Western Telegraph*. Roedd Maxim hefyd yn gerddor da, yn chwarae'r gitâr ac yn canu. Daeth i gysylltiad â Polina, cyfeilyddes ddawnus oedd wedi ymgartrefu gyda theulu yn Noc Penfro, a buont yn perfformio mewn cyngerdd yn Aberdaugleddau yn ddiweddar i godi arian at Apêl Wcráin.

Meddai Wynn am Maxim ac Olena, 'Yr hyn sy'n fy mwrw i yw hyn: y Nadolig diwethaf, roedd Maxim ac Olena yn byw fel ni, yn gwyllo'r teledu, gyrru i'r gwaith a dathlu'r ŵyl. Mewn byr o amser fe newidiodd popeth iddynt nhw.'

Gan fod Maxim ac Olena'n teimlo mor ffodus iddynt gael cartref dros dro mor wych gan y teulu, roeddent am geisio talu rhywfaint o'r ddyled 'nôl drwy berfformio ychydig o'u cerddoriaeth fel rhan o'r oedfa garolau. Braint arbennig oedd cael gwrandao ar Maxim yn canu i gyfeiliant ei gitâr; Polina'n cyfeilio iddo ac yn cyflwyno datganiadau unigol ar y piano; a Matthew, ffrind o Aberdaugleddau, yn cyflwyno unawd ar y trwmpeid ac yn ymuno â'r ddau arall i greu cerddoriaeth o'r safon uchaf.

Daeth noson gofiadwy iawn i ben wrth i Fois Carn Inglï gyflwyno dwy garol plygain, gan gynnwys 'Carol y Blwch'. Aeth casgliad yr oedfa tuag at Apêl Wcráin.

Oedfa Dechrau'r Flwyddyn

Daeth cynulleidfa dda iawn ynghyd i Gaersalem unwaith eto ar gyfer oedfa gymun gyntaf 2023. Roedd y gwasanaeth dan ofal ysgrifenyddion y pum eglwys, gyda'r Parchg Alwyn Daniels yn gweinyddu'r Cymun. Cyflwynodd Marian Phillips hanes traddodiad yr Hen Galan yng Nghwm Gwaun a chafwyd gan Aeres James, Bethlehem, neges drawiadol ar gyfer dechrau'r flwyddyn. Bu'n oedfa dra bendithiol wrth inni gamu i mewn i'r anwybod gyda sicrwydd yn ein calonau a bydd ein Gwaredwr gyda ni ar hyd y flwyddyn, beth bynnag fydd ein tynged.

Bonni Davies

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Ffolineb a doethineb

Gweddi

Arglwydd Dduw, y mae'r nefoedd yn datgan dy fawredd, a gwaith dy fysedd yn tystio i'th dragwyddol fawredd a'th allu. Llanwa ninnau eto heddiw gyda rhyfeddod at dy ddoethineb yn Iesu Grist a'i goncwest ar Galfaria, a dangos i ni dy ogoniant sanctaidd, nerthol a grasol. Amen.

Emyn 575: 'Disgyn, Iesu, o'th gynteddoedd'

Darlleniad: Mathew 5:12-20

Cyflwyniad

Rhyfeddol, yn wir, yw galwad Iesu i'w ddisgyblion fod â'u tystiolaeth gyhoeddus fel goleuni, fel halen neu fel dinas wedi ei gosod ar fryn. Ond cymaint yw goblygiadau ei alwad arnom fel ein bod yn reddfod am lastwreiddio'r gofynion sydd ynghlwm â'i alwad.

Gwelwn yn yr Ysgrifurau Iddewig gondeiniad o'r duedd sydd ynom i gyd i gredu bod 'gwneud pethau crefyddol' rywsut yn boddhau Duw. Gadewch i ni graffu ar sut mae Eiseia yn egluro annigonolrwydd hyn i'w gyfoedion.

Darlleniad: Eiseia 58 :1-12 Gwir Ympryd

Dyma asesiad yr Arglwydd o grefyddolder a oedd, o ran ieithwedd, yn ymddangos yn dduwiol (adn. 1-5) ond a oedd mewn gwirionedd yn cuddio anghyfiawnder a chynnen. Nid yn y geiriau ond yn y gweithredu y cadarnheir proffes ddilys o ffydd (adn. 6-7). I'r gymdeithas sy'n gweithredu ar sail ei ffydd ceir addewid am ffyniant (adn. 8-12).

Bydded i ni fod â chlustiau a chalonnau sy'n agored i gael ein cyfarwyddo gan yr Arglwydd heddiw.

Emyn 743: 'Gorchudd ar dy bethau mawrion'

Darlleniad: 1 Corinthiaid 2:1-16

Sŵn byddarol

Ni fu prinder o 'athrawon doeth' i'n cyfarwyddo mewn unrhyw oes. Heddiw, ceir llyfrau di-ben-draw, blogiau, apiau niferus, oll yn ein cynghori sut i wisgo'n fwy ffasiynol er mwyn bod yn llwyddiannus; neu sut i fod yn fwy hyderus; neu beth yw'r ffordd orau i fod y person mwyaf diddorol mewn ystafell o bobl. Beth bynnag sydd ei angen arnom, fe fydd rhywun wedi creu rhaglen, cwrs, blog neu fideo i'n cynghori. A bydd pob un yn taeru bod eu disgyblaeth, eu gwybodaeth, eu dirnadaeth neu eu 'doethineb' hwy yn rhagori ar bob un arall a aeth o'u blaenau. Buan yr aiff ffasiwn heddiw heibio a buan y canfyddir ffasiwn

a doethineb newydd fydd yn peri i'r hyn oedd yn ddeniadol heddiw gael ei farnu fel rhywbeth diwerth fory.

A gwyddom o brofiad sut y gall dulliau slic o farchnata, hygredded arwynebol diwyg rhyw gynnyrch, y gerddoriaeth afaelgar a'r negeseuon di-ben-draw ein byddaru. Dyma 'ddoethineb' ffôl a gwag y byd.

Doethineb, nid gimig

I gynulleidfa ifanc Corinth roedd lleisiau 'doeth' eu dydd mewn peryg o'u camarwain. Felly, atgoffodd yr Apostol Paul hwy o'r hyn sy'n gwbl ganolog i'n ffydd.

Yn y lle cyntaf, roedd Paul am iddynt sylweddoli nad trwy ddilyn dulliau cyfathrebu slic yr enillwyd hwy i Grist. Nid 'rhagori mewn huodled neu ddoethineb' ac nid 'geiriau deniadol doethineb', na chwaith '[d]doethineb dynol' a'u harweiniodd i ffydd yn Iesu Grist.

Perswâd

Mae'n bwysig atgoffa ein hunain nad dibrisio addysg, gwybodaeth, dysg na gallu i ymresymu nac i berswadio pobl o eirwired ei neges a wna Paul. Yn ôl Luc, pan aeth Paul i Gorinth, 'byddai'n ymresymu yn y synagog bob Saboth, a cheisio argyhoeddi Iddewon a Groegiaid' o wirionedd yr efengyl a gyhoeddai (Actau 18:4).

Nid yw'r efengyl yn ei chrynswth, na gwir argyhoeddiad, nac ymlyniad ffydd wrth Iesu, yn dibynnu ar ffasiwn fypwyl na pherswâd dynol. Dibynna ar allu Duw, ar amlygiad sicr o'r Ysbryd a'i nerth (1 Corinthiaid 2:4).

Canolbwynt

Yn ganolog i dystiolaeth yr efengyl ceir neges dramgwyddus, neges sy'n ymddangos yn ffôl yng ngolwg y byd. Neges ydyw am Iesu, am Feseia o benodiad Duw ei hun, yn dioddef ac yn marw ar groesbren troseddwr. Y groes yw aberth cymod grasol Duw i gymodi byd euog ag ef ei hun (2 Corinthiaid 5:17 ymlaen) a'r groes yw proesiwn cyhoeddus buddugoliaeth Duw dros bechod a'i ymerodraeth (Colosiaid 2:14-15).

Gallu'r Ysbryd Glân sy'n ein hargyhoeddi o'n hangen gerbron Duw ac o ddigonolrwydd darpariaeth Duw ar ein cyfer yng Nghrist, a thrwy Grist Iesu, yr Arglwydd.

Methu gweld

Doethineb 'ar ddarfod' gan rai 'oedd am ddarfod amdanynt' yw doethineb yr oes bresennol, meddai Paul. Pe byddai doethineb daearol yn ddigonol

i ddatguddio gogoniant bwriadau Duw, a phe baent wedi medru ei weld, fyddai Herod ddim wedi gwrthwynebu Iesu, na Chaiaffas ac Annas wedi ei erlid, na Philat a'i awdurdod wedi ei gondemnio (adn. 9). Hyd heddiw, ni all y bydol ddoeth, ddall, fyth adnabod gogoniant Iesu Grist.

Cipolwg

Nid doethineb dynol oedd yn dibynnu ar ffasiwn 'heddiw' y byd mo'r doethineb y perswadiwyd y Cristnogion cynnar hyn ganddo. I'r rhai a argyhoeddwyd gan yr Ysbryd Glân, yr hwn sy'n dragwyddol yn 'plymio hyd yn oed ddyfnderoedd Duw', daw 'pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i feddwl neb, y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu' yn realiti byw wrth gael eu dwyn 'i'n gogoniant' (adn. 7,9).

Doethineb go iawn – Gair ac Ysbryd

Mae bodolaeth unrhyw gynulleidfa o'r Eglwys (fry yn y nef/ neu ar y llawr) yn ganlyniad gweithgarwch sofran yr Ysbryd Glân.

Yn sail i bob adnabyddiaeth o Dduw, ac yn ganolog i fywyd pob eglwys, cyhoeddir ac fe gredir 'geiriau a ddysgwyd i ni'. Nid profiad 'ysbrydol' annelwig yw sail ein proffes ond geiriau, syniadau, pethau y medrwn eu deall, y medrwn ymgodymu â nhw, er mwyn eu deall yn well, ac y medrwn eu rhannu gyda phobl eraill.

Ar yr un pryd, nid yw, ac ni all, dealltwriaeth oeraidd o'r geiriau ein 'dwyn i'n gogoniant'. Yr 'Ysbryd sydd oddi wrth Dduw' a dywalltwyd ar y byd ac a dderbynasom ni, hwnnw a weithiodd ar ein meddyliau ac yn ein calonnau. Dim ond yr Ysbryd hwnnw fedr egluro i ni 'yr heirdd drysorau drud', sef 'y pethau a roddodd Duw o'i ras i ni'.

Pregethu ac adeiladu'r Eglwys ar sail Gair Duw, drwy allu'r Ysbryd Glân, yw priod waith pob pregethwr Cristnogol. Drwy'r gair a'r Ysbryd 'gan esbonio pethau ysbrydol i'r rhai sydd yn meddu'r Ysbryd' caiff doethineb cuddiedig/ datguddiedig Duw, ei gyhoeddi, ei amgyffred, ei farnu a'i gredu.

Heb yr Ysbryd Glân, ffolineb fydd y gair am y groes. Heb yr Ysbryd Glân ni welwn ein hangen, ni chawn ein hargyhoeddi o'n cyflwr truenus, ac ni ddeallwn fod Duw, yng Nghrist, yn cymodi pobl fel ni, yn wir yn cymodi'r byd ag ef ei hun.

Gweddi

Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni; plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni; Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.

(Daniel Iverson; Cyf. Iddo Ef)

Emyn 580: 'O Dduw, rho im dy Ysbryd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru

[f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

[t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)